*Ysgol Bro Alun*
*Rhodfa Delamere*
*Gwersyllt*
*Wrecsam*
*LL11 4NG*
*Ffôn: 01978 269580*
*Ffacs: 01978 269589*

Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

# YSGOL BRO ALUN

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk**

**Mabolgampau**

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Fel y gwyddoch, cynhelir mabolgampau Ysgol Bro Alun yr wythnos yma. Dyma'r manylion:

**Dydd Mercher, Gorffennaf 12fed am 9:30am – Meithrin a Derbyn**
**Dydd Mercher, Gorffennaf 12fed am 1:15pm – Blynyddoedd 1 a 2**
**Dydd Iau, Gorffennaf 13eg am 9:30am – Blynyddoedd 3 a 4**
**Dydd Iau, Gorffennaf 13eg am 1:15pm – Blynyddoedd 5 a 6**

- Mae'r plant i ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff arferol sef crys T gwyn, siorts tywyll a trainers
- Does dim digon o gadeiriau efo ni yn yr ysgol, felly os am eistedd a wnewch chi ddod â'ch cadair eich hun gan eistedd ochr bellaf y trac h.y. nid ar ochr yr ysgol o'r trac lle bydd y disgyblion yn eistedd
- **A wnewch chi os gwelwch yn dda beidio â chroesi at yr ardal y mae'r plant yn eistedd ar ochr arall y trac.**
- Os yw hi'n boeth a wnewch chi sicrhau fod gan eich plentyn gap / het a'ch bod wedi rhoi eli haul arno / arni cyn dod i'r ysgol. Os yw'r plant yn medru rhoi eli haul eu hunain, mae croeso iddynt wneud hyn. Hefyd sicrhewch fod digon o ddwr gan eich plentyn.
- Os na allwn gynnal y mabolgampau oherwydd y tywydd, byddwn yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosib yn y bore, gan adael i chi wybod ar yr app a'ch hysbysu pan fyddwn wedi gosod dyddiad newydd.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,

Osian Jones